

W-1-63

**GALAR-GAN,**

YD COP AM

*Miss* **MARGARET JONES;**

IN NGHYDA

**CHYWYDD,**

AR FARWOLAETH

**LIEUT. WILLIAM WYNNE JONES.**

**DAN BENJAMIN EVANS,**


(Llywarch Môn,) Bodedeyrn.

CAERNARFON:

ARGRAFFWYD GAN H. HUMPHREYS

—  
1843.

W-1-63



160 562551 3



Miss MARGARET JONES;

YN NGHYDA

CHYWYDD,

AR FARWOLAETH

LIEUT. WILLIAM WYNNE JONES.

---

GAN BENJAMIN EVANS,

(Llywarch Môn,) Bodedeyrn.

---

CAERNARFON:

ARGRAFFWYD GAN H. HUMPHREYS.

---

1843.

AT Y DARLLENWYR.

*Anwyl Gydwladwyr,*

*Erfyniaf hynawsedd yr urddasolion  
craffus, i beidio defnyddio fflangell erwinaf  
beirniadaeth at y Galarnadau canlynol, o  
herwydd nad wyf ond ieuanc o ran oed, ac  
ieuanc iawn fel prydydd.*

*Yr AWDWR.*



x 20 526 3339

# PRYDDEST, &c.

Ar Farwolaeth

Miss MARGARET JONES.\*

---

Ar frodir wech Llifon yr huan dywynai,  
Uwch Trisant llewyrchai heb gwmwl na llen;  
Ac ar y Periglordy y gorwych belydrai,  
A'i wyneb porphoraidd addurnodd ei nen.

Cynyrchion Alban Elfed lanwai'r ydlenydd,  
A ffrwythau toreithiog i'w lloni o hyd:—  
Gwrdd lysiau gwyrdd leision addurnant y dolydd,  
Y rhai a siriolir gan afon y Rhyd.

Y Coedydd ceuadfrig mewn lliwdeg ddilladau,  
Ymdrwsient yn harddwych drwy'r goedwig deg  
werdd;  
Yn ddiau beirdd anian pereiddlawn eu hodlau,  
Ar dirfion heirdd gangau yr unent eu cerdd.

Mor hyfryd i'm golwg pob gwelltyn yn wyrddlas,  
Yr irwydd a'r aeron a harddent yr ardd,  
Y llwyni persawrus a noddir yn addas,  
A'r blodion amryliw;—eu trefniant mor hardd.

---

\* Miss M. Jones ydoedd ferch i'r diweddar  
Barch. H. W. Jones o Dre'iorwerth, a chwaer i'r  
Parchedig H. W. Jones, Periglor Llantrisant, Mon.  
Bu farw Hydref 2il, 1842, yn 62 oed.

Trwy'r heirddion rodfâau o gylch y Periglordy,  
 Tramwyai y bonedd a'u llygaid yn llon;  
 Gwâr adar goreudeg wnai'u lloni o'r deildy,  
 Ond bychan feddyliant da'i drostynt fath dôn.

Tra iesin Lantrisant! mangre elusenau!  
 Mor iawnwych yr unwyd dy feini yn nghyd;  
 O'r braidd gallaf gredu y dichon gofidiau,  
 Anturio yn agos i drigfan mor glyd.

Och! Och! siomedigaeth, y nwyfre a dduodd,  
 Miloedd o gymylau ordöent y nen;  
 A siriol bleserau o'r golwg wnaent gillo,  
 Ah! wele Lantrisant yn awr dan ddu len.

Goleudeg lywiawdwyr unent i alaru,  
 Eu drych yn iselaidd a gwelw eu gwawr;  
 Ymddifaid sy'n bruddaidd drwy "Fona Fam Gymru,"  
 O herwydd ei symud gan alaeth yn awr.

Beth barodd fath alar? nid oedd a ynganai,  
 Dim ond wylofain a glywid yn awr;  
 Ond, Och! ryw adsain o'r creig a'm hatebai,  
 Un 'styriai'n dosturiol a dorwyd i lawr.

Wrth i mi ymwrando 'roedd gwaedd yr amddifaid,  
 A chwyn y tylodion am rwygo fy mron;  
 Yn fynych gofynent, a dofnddwys ochenaid,  
 Pa bryd y canfyddwn ei hail yn ngwlad Fôn?

Mewn congl o'r neilldu Monwysion mynwesawl,  
 Sy'n gwelwi mewn galar, gan sefyll yn syn;  
 Yn gynil o'i enau d'ai geiriau cwynfanawl,  
 Minau a'u hysgrifais, a'u cynwys oedd hyn:—

"Ah! b'radwys wên Brydain, ai hyn fu dy dynged?  
 Ow! edwi llysiuyn beraroglai dy fro;  
 Diwreiddio cedrwydden fu'n addien fwyn nodded,  
 Dwyn mamaeth dy weinion—Och! drymed y tro.

“ Mae hiraeth o'i herwydd yn ngwaelod fy nghalon,  
 Ochenaid ddyrwyga fy mynwes sy' brudd ;  
 Y ddwyfron sy' ddifrif o'i rhoi 'mhlith marwolion,  
 Alaethus wyf weithion ei bod o dan gudd.

“ Anwylion hen Walia benthyciwch i'm ddoniau,  
 Er dangos ei nhodwedd yn berffaith i'r byd ;  
 Fel byddo i'n cenedl yn enghraifft trwy'r oesau,  
 I noddi rhinweddau a'u dylyn o hyd.

“ Cryf addysg crefyddol a gafodd o'i mhebyd,  
 Yn buichweg hyn barchai hyd ddiwedd ei hoes ;  
 Yn gu byth gobeithiai yn Nghrist ei hanwlyd,  
 Cyfrifai yn fawr-fraint gael codi y groes.

“ Mûn orddoeth mewn urddas, hoff eurdda hyff-  
 orddiant,  
 Yn gusfad a gafodd yn neddfau y Nef ;  
 Gwedyn y rhai'n gadwodd yn bwylllog heb balliant,  
 A rhodiai'n oreudeg yn ol ei air ef.

“ Un isel hynawsaidd, gain addfwyn gyneddfau,  
 Oddygiad bon'ddigaidd oedd hon yn ei rhawd ;  
 Gain fanon, gan fonedd parch gafodd yn ddiau,  
 A gwir law agored cyfranai i'r flawd.

“ Ei helusengarwch oedd iddi yn goron,  
 Mil myrdd gwerthfawrocach na choronau'r byd ;  
 Tosturi o'i mynwes a darddai fel ffynon  
 Ddihysbydd, a'i dyfroedd a ffrydient o hyd.

“ Ei dwylaw ddiferent o wllithoedd elusen,  
 Fel afon fe lifodd i fwthyn y flawd,  
 Trwy bob hin ymwelai a'r truan mewn angen,  
 Er dwyn iddo beunydd ymgeledd a flawd.

“ Dilladai y llwydion, diwallai'r angenus,  
 Gorenwog arweiniai y crwydriad i dŷ ;  
 Gwnai gynul y gweiniaid mewn cyflwr adfydus,  
 Y rhai a gyflwynai i ofal Duw fry.

“Ei harian roi'n hyrwydd at gynnal ysgolion,  
 I addysgu plantos tylodion yn rhad;  
 Ac hefyd bu'n hael er anfon Cenhadon,  
 A thrysor y Nefoedd i lanw pob gwlad.

“Er ei harddwch a'i hurddas yn ngwlad ei chyn-  
 dadau,  
 Ow! syrthiodd i'r beddrod a gwywodd ei gwawr;  
 Ni safodd yn wyneb rhuthrwyntoedd yr angau;  
 Y gweiniaid gan gwyno sy'n wylo yn awr.”

Ar hyn clywaf yr henwr a'i briod oedranus,  
 Yn ochain yn drist am roddi yn y bedd,  
 Un lonai wael unig, mewn byd anghysurus,  
 A'i rhoddion gorhydestl, heb wg yn ei gwedd.

Y weddw fethiantus yn ei chell sy'n galaru,  
 Gan drydar “Ow fy mhlant pa fodd y cawn fyw?  
 Pan gollais eich tad, gwnai hon ein cyfnerthu,  
 Ond och! rhaid im' bellach ddywedyd,—‘Nid yw’”

Y dwylaw diwaelaidd wnai'n rhwyddaidd a rhoddion  
 Drueiniaid orwenu er gwaeled eu gwedd;  
 A'r galon orgulwys o gariad i'r gwirion,  
 Fu'n fflamio—sy'n awr yn oer babell y bedd.

Adgofion o hyny bâr afonydd o ddagrau  
 I dreiglo fel perlau—ing wywa fy ngwedd;  
 Ei haeledd gorhylon wresogai fynwesau  
 Wrth ei choffa—gwae ni ei bod yn y bedd.

Er hyny ei henw ennyn awenyddau;  
 I gofio ei gwiwfoes—Och! angau pa ham  
 Y mudaist o'n talaith un llawn rhagoriaethau,  
 Rhyw lais am hatebai, “ffordd Duw nid yw gam.”

Cyfoder cof-adail yn dyst o'i gweithredoedd,  
 A cherfier ei hardeb er côf o'i mwyn wedd;  
 Ys amser â'i treulia yn llwyr yn mhen oesoedd,  
 Pryd hyny ei rhinwedd ni sawdd i'r dwfn fedd.



## C Y W Y D D ,

Ar Farwolaeth

LIEUT. WILLIAM WYNNE JONES.\*

MAE'R hyglo'd a'r mir Raglaw ?  
 Yr awrhon mae'm bron mewn braw ;  
 Am WILLIAM y mae alaeth,  
 O'i roi'n y gwys oer yu gaeth ;  
 Ymroi yn awr mewn mawr nych,  
 Mae rieni mireinwvch,  
 Dyma ergyd a mawrgur,  
 E garai pawb y gwr pur ;  
 Gloewdeg wron gwladgarwch,  
 Yn ei fron wna'i fflamio'n flwch ;  
 Môr o gariad i'w wlad lwys  
 A'i buredig baradwys,  
 A'i gyrai o'i deg oror  
 Dros lidiawg wynferwawg fôr,  
 I fro India fireindeg,  
 Fel na chai 'n hen Frydain frêg.  
 E garai llu y gwr llon  
 A'i ddenawl ymddyddanion,

\* Mr. Wynne Jones ydoedd fab i'r Parch. H. W. Jones, Periglor, Llantrisant, Mon. Anrhegodd ei gyd-swyddogion ei goffawdwriaeth ef â Thablet hardd, ac yn ysgrifenedig arni y geiriau canlynawl:

This Tablet

is dedicated to the Memory of

Lieutenant WILLIAM WYNNE JONES,

by his brother Officers,

of the 3rd Regiment Bengal Native Infantry ; who died, much and sincerely regretted, at Nuseerabad, in Rajpootanah, on the 11th of September, 1835, Aged 29 years.

Drwy barch, a wnai am dro byr,  
 Ofalu am wân flwyr,  
 Clywai ef eu llef o'r llaid,  
 E dirionai drueiniaid;  
 Deuai'r hynod wr heinif  
 Drwy helyntion bron heb rif,  
 Ac anferth ordrafferthion,  
 Barai friw yn ei bur fron;  
 O'i roi lawr o dan oer len,  
 Difwyd yw fy awen;  
 Er mawredd, i'r bedd oer bant  
 Yr â milwyr o'u moliant;  
 Er hyny bob ryw enyd  
 Gwaith Ion sy gyffion i gyd;  
 Duw biau edau bywyd,  
 Duw Ior—hwn a dyr ei hyd.  
 Angau a'i saeth ing yw sôn,  
 Roi WILLIAM at farwolion,  
 Y doniawg wr o dan gaerydd,  
 Hyd y farn yn India fydd;  
 Diail a fo adail fedd  
 Y gwr enwog eirianwedd,  
 O ran addien rinweddau,  
 Bri hwn wna yn Môn barhau,  
 Dra heli dwfr—tra haul dydd,  
 Yn ymweled â'n moelydd.

Yn y diwrnod y daw'r mawredd,  
 I alw ei blant o bant y bedd,  
 Yn dirion yr hyderaf  
 Y caiff yn ferth drwy nerth Naf,  
 A gwên gu fyn'd i gain gôl  
 Y da Iesu dewisol,  
 I foli'n ber â'i der dant,  
 Gwiw gynnor y gogoniant!

